

# Canllawiau i Fferyllwyr Ymgynghorol

Gweithgor Bywyd Byr Fferyllwyr Ymgynghorol

Ionawr 2020



Department of  
**Health**

An Roinn Sláinte

Männystrie O Poustie

[www.health-ni.gov.uk](http://www.health-ni.gov.uk)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)



**THE NHS  
CONSTITUTION**  
the NHS belongs to us all

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gofynion a disgwyliadau fferyllwyr ymgynghorol sy'n darparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys y camau sy'n gysylltiedig â chreu swyddi fferyllwyr ymgynghorol a lefel y cyrhaeddiad a ddisgwylir gan y rheiny sy'n dymuno gweithio fel fferyllwyr ymgynghorol.

Fe'i bwriedir fel canllaw i'r rheiny sy'n dymuno creu swyddi fferyllwyr ymgynghorol, i'r rheiny sy'n ceisio dod yn fferyllwyr ymgynghorol neu i unrhyw un sy'n dymuno deall rôl a disgwyliadau fferyllwyr ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG.

## Rhagair

Mae'r GIG wedi dechrau ar daith i un o'r systemau gofal iechyd mwyaf diogel ac effeithlon yn y byd i gleifion ac i'r cyhoedd, a'r gweithlu fferyllol sy'n ganolog i'r weledigaeth hon.

Tra bod yr heriau a wynebir yn sylweddol ac yn gofyn am newidiadau ar raddfa fawr, mae'r cyfleoedd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn fwy yn awr nag y buont erioed.

Ar draws y DU rydym wedi gweld camau breision i wella'r gofal a ddarparwn i'n dinasyddion gyda mwy o ffocws ar ofal di-dor ar draws y system gofal iechyd gyda lefel cynyddol o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref. Mae trawsnewid gofal sylfaenol yn ganolog i'r gwaith o greu GIG cynaliadwy. Mae fferyllwyr clinigol yn cael eu defnyddio ar raddfa fel rhan annatod o'r tîm gofal sylfaenol amlddisgyblaethol, gan ddefnyddio eu harbenigedd fferyllol penodol i ofalu'n uniongyrchol am gleifion. Mae gan fferyllwyr ymgynghorol rôl allweddol i gefnogi'r datblygiadau pwysig hyn, gan weithio ar draws llwybrau cleifion i reoli achosion clinigol cymhleth mewn cydweithrediad â'u cydweithwyr mewn ysbytai, gofal sylfaenol, fferyllfa gymunedol a'r sector gofal cymdeithasol.

Mae ffocws cynyddol ar atal yn ogystal â thrin afiechydon. Rydym wedi ymrwmo i ddefnyddio meddyginiaethau yn fwy synhwyrol, i wella iechyd a lles, tra'n lleihau'r risg o niwed. Rydym yn ymdrechu i gynnwys pobl yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal, ac yn cyflawni canlyniadau sydd o wir bwys i bobl.

Mae gweithredu'r newidiadau hyn yn gofyn am fferyllwyr profiadol mewn rolau arwain a all gefnogi nid yn unig gweithwyr fferyllol proffesiynol, ond pawb sy'n ymwneud â chyflenwi gofal boed hynny mewn gofal eilaidd neu sylfaenol, iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae'r ddogfen hon yn mynegi'n glir y rôl hanfodol y bydd fferyllwyr ymgynghorol yn ei chwarae fel clinigwyr ac fel arweinwyr.

Ynghyd â'u rôl ymarfer, bydd fferyllwyr ymgynghorol ar flaen y gad o ran cynhyrchu a lluedaenu tystiolaeth i sbarduno gwelliannau mewn gofal. Bydd fferyllwyr ymgynghorol yn fodolau rôl i eraill, yn mentora, yn cefnogi ac yn datblygu gweithwyr fferyllol proffesiynol presennol ac yn y dyfodol fel bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn diwallu anghenion y GIG sy'n newid yn barhaus.

Rhaid i fferyllwyr ymgynghorol feddu ar y sgiliau a'r profiad i ragori ym mhedair colofn ymarfer; felly, rydym yn cyflwyno trefniadau ffurfiol i sicrhau bod fferyllwyr â chredyd ar gael i wneud yn siwr bod hyn yn digwydd. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn disgrifio proses newydd ar gyfer cymeradwyo swyddi fferyllwyr ymgynghorol newydd. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod fferyllwyr ymgynghorol yn parhau i gael effaith sylweddol ar wella iechyd a lles.

Ers cyhoeddi'r canllawiau blaenorol ar gyfer datblygu rolau fferyllwyr ymgynghorol yn 2005, rydym wedi gweld twf graddol yn nifer y fferyllwyr ymgynghorol sy'n gweithio ar y lefel uchaf yn ein proffesiwn i gefnogi a sbarduno gwelliannau mewn iechyd a

gofal. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae rolau ymgynghorwyr wedi dod i'r amlwg wedi amrywio'n fawr rhwng sefydliadau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r canllawiau hyn i roi hwb o'r newydd i gynyddu nifer y swyddi fferyllwyr ymgynghorol sy'n cynnal ein poblogaeth er mwyn cael y gorau o'u meddyginiaethau, ac i leihau amrywiad fel bod pobl yn elwa waeth ble maent yn byw. Mae'r dull gweithredu a nodir yn y canllawiau hyn yn gam arwyddocaol tuag at wneud rolau fferyllwyr ymgynghorol yn ddyhead realistig i lawer mwy o fferyllfeydd.



Keith Ridge  
Prif Swyddog Fferyllol, Lloegr,



Andrew Evans  
Prif Swyddog Fferyllol Cymru,



Cathy Harrison  
Prif Swyddog Fferyllol, Gogledd Iwerddon

# Cynnwys

1	Cefndir .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
1.1	Fferyllwyr Ymgynghorol .....	7
1.2	Cyd-destun .....	11
1.3	Datblygu swydd y Fferyllydd Ymgynghorol hyd yn hyn.....	11
1.4	Yr Achos dros Newid .....	13
1.5	Nodau .....	14
1.6	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth .....	14
2	Ymarfer Fferyllydd Ymgynghorol.....	16
2.1	Beth yw Ymarfer Arbenigol fferyllydd ymgynghorol? .....	16
2.2	Cynllunio swyddi .....	17
3	Pam mae angen cymeradwyo swyddi? .....	18
3.1	Meini prawf ar gyfer cymeradwyo swydd.....	18
3.2	Trefniadau rheoli llinell .....	19
3.3	Panel cymeradwyo swyddi.....	19
3.4	Dogfennaeth cymeradwyo'r swydd .....	19
3.5	Canlyniad y broses gymeradwyo .....	19
4	Fframwaith Gyrfaol .....	21
4.1	Hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr ymgynghorol .....	21
4.2	Gwirio cymwysterau unigolion.....	22
4.3	Y Broses Gwirio Cymwysterau.....	22
4.4	Cofrestr Unigolion sydd wedi'u Gwirio.....	23
4.5	Meini Prawf ar gyfer Cynnal a Chadw .....	23
4.6	Gwahaniaethu fferyllwyr ymgynghorol oddi wrth rolau uwch fferyllwyr clinigol eraill 24	
5	Meini prawf ar gyfer penodi fferyllwyr mewn swydd ymgynghorydd.....	25
5.1	Tâl fferyllwyr ymgynghorol .....	25

## Crynodeb gweithredol

Mae fferyllwyr ymgynghorol yn arbenigwyr clinigol sy'n gweithio ar lefel uwch, yn darparu gofal ac yn sbarduno newid ar draws y system gofal iechyd. Maent wedi dangos bod ganddynt y lefel cymhwysedd a ddisgwylir gan fferyllwyr ymgynghorol ac mae eu swyddi wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo. Cydnabuwyd teitl y fferyllydd ymgynghorol yn y GIG yn 2005 ar ôl cyhoeddi dogfen Adran Iechyd Lloegr, "Guidance for the Development of Consultant Pharmacist Posts". Ysgrifennwyd y canllawiau diweddaedig hyn i gydgrynhoi'r canllawiau gwreiddiol ac i sbarduno datblygiad pellach y swyddi pwysig hyn.

### Pam mae angen canllawiau newydd?

Ers cyhoeddi'r canllawiau yn 2005, mae fferyllwyr ymgynghorol wedi cael cryn effaith, ond mae newidiadau sydd ar y gweill yn y GIG ehangach ac mewn fferylliaeth o ran proffesiwn, yn gofyn am gynnydd yn yr adnodd clinigol a phroffesiynol hanfodol hwn os ydym am yrru gwelliannau pellach yn y gofal rydym yn ei ddarparu.

Hyd yma, gwelwyd twf swyddi yn gyffredinol mewn ymateb i anghenion lleol ac argaeledd staff ac mae'r swyddi wedi canolbwyntio ar ofal eilaidd yn hytrach na thrwy ddull strategol o ymdrin ag anghenion y boblogaeth. Felly mae angen canllawiau newydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu swyddi ymgynghorwyr eraill ac i gefnogi prosesau sicrwydd cadarn ar gyfer darpar ddeiliaid y swyddi.

Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2005 yn berthnasol yn Lloegr yn unig. Mae angen canllawiau newydd sy'n cefnogi parhad a chanllawiau y gellir eu trosglwyddo ledled y Deyrnas Unedig ac sy'n berthnasol ar draws y pedair gwlad. Yn wreiddiol, cyhoeddir y ddogfen ar ran GIG Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru gyda'r nod ei chyflwyno i wledydd eraill y DU.

### Beth sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau?

#### Cymeradwyo swyddi

Er mwyn sicrhau lefel briodol o ymarfer a chysondeb ar draws yr holl arbenigeddau ac ym mhob ardal, bydd swyddi fferyllwyr ymgynghorol yn parhau i gael eu cymeradwyo gan broses annibynnol gynaliadwy a chadarn.

Bydd y broses cymeradwyo swyddi yn ystyried lefel yr ymarfer a ddisgwylir gan ddeiliad y swydd, yr effaith arfaethedig ar draws y system gofal iechyd a bydd yn ystyried cynllunio olyniaeth yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer rheoli, goruchwyllo a chynllunio swyddi.

#### Ymarfer fferyllydd ymgynghorol

Mae gofyn i fferyllwyr ymgynghorol weithio ar draws pedwar piler ymarfer clinigol, arweinyddiaeth, ymchwil ac addysg, gan ymgymryd â gweithgareddau sy'n defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau helaeth ac arbenigol, a hynny er mwyn cyfrannu at iechyd unigolion a'r boblogaeth.

Cydnabyddir y bydd y gweithgareddau y mae unigolion yn eu cyflawni yn eu swyddi ynghyd â faint o amser a ddyrennir i bob un o'r pileri ymarfer yn amrywio. Mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys blaenoriaethau sefydliadol, lleol a chenedlaethol. Mae gofyn cysoni lefel ac effaith y gweithgaredd ar draws y rolau. Mae prosesau cadarn ar gyfer cynllunio swyddi yn allweddol i gynyddu allbwn fferyllwyr ymgynghorol, a rhaid eu cwblhau'n rheolaidd.

#### Datblygu fferyllwyr ymgynghorol

Bydd gofyn i unigolion sy'n dymuno cael eu penodi'n fferyllwyr ymgynghorol fod wedi datblygu a bod yn ymarfer ar y lefel briodol o arbenigedd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cefnogaeth, ar ffurf goruchwyliaeth glinigol ac addysgol a chyfleoedd addysgol priodol ar draws y pedwar piler ymarfer.

#### Gwirio cymwysterau unigolion

Er mwyn rhoi sicrwydd i gleifion, y cyhoedd a chyflogwyr ynghylch lefel arbenigedd clinigwyr sy'n gweithio ar y lefel uchaf yn ein proffesiwn, mae angen proses gwirio cymwysterau annibynnol a chadarn.

Bydd y broses hon yn darparu cydraddoldeb â grwpiau proffesiynol eraill ac yn cefnogi cynnal hyder a hygredd yn y rôl. Bydd yr asesiad, a wneir yn erbyn y fframwaith fferylliaeth uwch, yn adolygu arbenigedd unigolyn ar draws y pedwar piler ymarfer a bydd ganddo fewnbwn ystod o arbenigwyr.

#### Casgliad

Mae angen cydnabyddedig am ragor o arweinyddiaeth mewn fferylliaeth glinigol a meddyginiaethau ar draws systemau gofal iechyd. Mae gan fferyllwyr ymgynghorol yr arbenigedd, yr wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi hyn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn ogystal â'r boblogaeth ehangach.

Er mwyn galluogi datblygu swyddi fferyllwyr ymgynghorol ymhellach mae angen prosesau cadarn i sicrhau cysondeb ar draws rolau ac i roi sicrwydd ynghylch cymhwysedd unigolion. Bydd y prosesau hyn yn helpu i alluogi defnyddio fferyllwyr ymgynghorol yn briodol a'u bwriad yw cefnogi gwell canlyniadau o driniaeth i gleifion, y cyhoedd ac i'r GIG.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Cafodd y teitl “Fferyllwydd Ymgynghorol” ei gydnabod yn ffurfiol gan y GIG yn 2005 yn nogfen Adran Iechyd Lloegr, “Guidance for the Development of Consultant Pharmacist Posts”<sup>1</sup>. Daeth i fodolaeth o ddogfen “A Vision for Pharmacy in the New NHS”<sup>2</sup> 2003 ac fe'i harweiniwyd gan yr egwyddorion bod:

- Nodir buddion i gleifion wrth ddylunio swyddi
- Mae gan y teitl ‘Fferyllwydd Ymgynghorol’ ystyr go iawn
- Mae dull unffurf yn genedlaethol
- Bydd modd ei drosglwyddo'n hawdd ar draws sefydliadau

Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol nawr ag yr oeddent yn 2005 ond mae'r heriau y mae'r GIG bellach yn eu hwynebu hyd yn oed yn fwy o ran cymhlethdod a rheoli adnoddau.

Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2005 yn berthnasol yn Lloegr yn unig. Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu gyda mewnbwn o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Fe'i cyhoeddir, i ddechrau, ar ran y GIG yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan anelu i'w gyflwyno ymhellach ledled y Deyrnas Unedig.

## 1.2 Fferyllwyr Ymgynghorol

Mae fferyllwydd ymgynghorol yn fferyllwydd sydd wedi datblygu a dangos arbenigedd lefel uchel yn ei faes ymarfer ac ar draws y pedwar piler a amlinellwyd yng nghanllawiau 2005, sef ymarfer clinigol, arweinyddiaeth, addysg ac ymchwil. Mae eu cymwysterau wedi cael eu gwirio felly ac fe'u penodwyd i swydd ymgynghorydd gymeradwy.

Er nad yw'n ofynnol i'r fferyllwydd ymgynghorol ymgymryd â rôl sy'n ymwneud â chleifion yn uniongyrchol, disgwylir i'r rôl fod yn un sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gleifion neu'r boblogaeth e.e. fferyllwydd ymgynghorol ym maes diogelwch meddyginiaeth. Rhoddir enghreifftiau o weithgareddau y gellir ystyried eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar gleifion a'r boblogaeth yn yr adran ymarfer clinigol yn Nhabl 1.

Fel arweinwyr yn eu maes a'r proffesiwn, mae fferyllwyr ymgynghorol yn darparu gofal arbenigol i gleifion a chanddynt yr anghenion mwyaf cymhleth yn ogystal â darparu cyngor i'r timau sy'n gofalu am gleifion. Mae eu dylanwad yn ymledu ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol i gefnogi iechyd y rheiny sy'n cael mynediad at wasanaethau yn eu maes ymarfer yn ogystal â'r boblogaeth ehangach. Maent yn mynd ati i ddatblygu gwybodaeth trwy ymchwilio, arloesi yn eu meysydd arbenigedd,

---

<sup>1</sup> Adran Iechyd Lloegr (2005) *Guidance for the Development of Consultant Pharmacist Posts*.

<sup>2</sup> Adran Iechyd Lloegr; (2003) *A Vision for Pharmacy in the New NHS*



rhannu'r datblygiadau hyn i wella gofal ac arwain ar fabwysiadu blaenoriaethau proffesiynol a blaenoriaethau'r GIG yn eu meysydd ymarfer.

Maent yn adnodd arbenigol gyda dylanwad ar draws y system gofal iechyd. At hynny, maent yn cyfrannu at y strategaeth genedlaethol ac yn ei gyrru o fewn eu maes ymarfer a'r proffesiwn fferylliaeth. Maent yn gweithredu fel mentor i gyfoedion yn ogystal ag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd ehangach.

### **Blwch 1. Enghreifftiau o Swyddi Fferyllwyr Ymgynghorol Dr Beverley Ellis Fferylllydd Ymgynghorol / Gwyddonydd Radiofferyllol Ymgynghorol**

Mae Beverley wedi bod yn Bennaeth y Gwasanaeth Radiofferylliaeth yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Manceinion am dros 25 mlynedd. Mae hi'n gyfrifol am sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd er mwyn i'r Uned feddu ar Drwydded 'Specials' Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ac Awdurdodiad Gweithgynhyrchu ar gyfer Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliol (MA(IMP)), a hi yw'r unigolyn cymwys a enwir ar MA(IMP) yr Ymddiriedolaeth. Er nad yw'n ymgynghori'n uniongyrchol â chleifion, mae'n rhan o dîm amlddisgyblaethol clinigol sy'n darparu gwasanaethau meddygaeth niwclear i gleifion.

Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel cynghori ar ansawdd, llunio ac addasrwydd deunydd fferyllol ymbelydrol, adweithiau niweidiol a meddyginiaethau nad ydynt yn ymbelydrol y gellir eu rhoi i gleifion fel rhan o weithdrefn glinigol meddygaeth niwclear.

Mae'n aelod ac yn gyn-gadeirydd ac ysgrifennydd Pwyllgor Grŵp Radiofferylliaeth y DU (UKRG). Ar hyn o bryd, mae hi hefyd yn Gadeirydd ar Bwyllgor Safonau Proffesiynol Cymdeithas Meddygaeth Niwclear Prydain (BNMS), yn aelod o Gyngor Pwyllgor Safonau Proffesiynol Cymdeithas Meddygaeth Niwclear Prydain ac yn Gadeirydd ar Grŵp Gwyddorau Radiofferyllol y BNMS.

Ar hyn o bryd, hi yw'r cyd-arweinydd modiwl ar gyfer Radiofferylliaeth ar gyfer yr MSc mewn Gwyddor Fferyllol Glinigol ac MSc / PgD mewn Technoleg Fferyllol a Sicrwydd Ansawdd (PTQA). Mae hi hefyd yn darlithio ac yn arholi ar gyrsiau Meistr eraill ym Mhrifysgol Manceinion fel MPharm ac MSc mewn Gwyddoniaeth Delweddu. Yn ogystal â bod yn diwtor seiliedig ar waith ar gyfer myfyrwyr PTQA, mae hefyd yn rheolwr hyfforddi ar gyfer hyfforddeion Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr Gwyddor Gofal Iechyd ym maes Gwyddor Fferylliaeth Glinigol, ac yn asesydd ar gyfer yr Aseiad Terfynol Strwythuredig Gwrthrychol, sy'n rhan o aseiad terfynol cenedlaethol y Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr.

Ar ôl bod yn academydd anrhydeddus ym Mhrifysgol Manceinion am dros 25 o flynyddoedd, mae Beverley wedi bod yn ymwneud ag amryw o brosiectau ymchwil, papurau a chrynodebau cyhoeddiedig a phapurau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid ar gyfer cyfnodolion rhyngwladol. Mae hi wedi bod yn Ymchwilydd ar grantiau ymchwil sydd wedi cynnwys gwerthuso cymhlygion <sup>99m</sup>Tc newydd ar gyfer delweddu darlifiad myocardaidd ac ymchwilio i ffarmacocineteg polyswlffad pentosan wedi'i radioiodineiddio. Mae ymchwil diweddar wedi cynnwys datblygu asiantau

labelu celloedd ar gyfer delweddu heintiau a llid gyda Tomograffeg Allyriadau Positron (PET)

### **Nik Reid – Fferyllydd Gwrthficrobaidd Ymgynghorol Cymru Gyfan**

Nik yw'r Arweinydd ar gyfer stiwardiaeth gwrthficrobaidd (AMS) yn y Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd genedlaethol ac ef yw'r arweinydd proffesiynol ar gyfer fferyllwyr gwrthficrobaidd (AMP) mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae ei rôl yn cynnwys darparu hyfforddiant, cefnogaeth a mentoriaeth i'r fferyllwyr gwrthficrobaidd yn ogystal ag addysg a hyfforddiant i bob proffesiwn mewn stiwardiaeth gwrthficrobaidd a phresgripsiynu. Y fferyllydd ymgynghorol yw arweinydd y rhaglen ar fwrdd cyflawni Ymwrthedd Gwrthficrobaidd ac ysgrifennydd grŵp llywio lefel uchel y Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yn Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn darparu sesiynau clinigol i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn meddu ar gontract er anrhydedd gydag Ysgol Fferylliaeth, gan ddarparu cysylltiadau dysgu ac ymchwil.

Mae Nik wedi ysgrifennu, cynghori a chefnogi cyflwyno targedau gwrthficrobaidd cenedlaethol a dangosyddion rhagnodi ac wedi creu amrywiaeth o adnoddau addysgol, yn ogystal ag addysgu staff fferylliaeth yn y Byrddau Iechyd Lleol. Mae hefyd wedi cynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu empirig i ofal sylfaenol a gofal eilaidd. Yn ogystal, mae wedi cyflwyno sawl prosiect stiwardiaeth gwrthficrobaidd, gan gynnwys profion pwynt gofal CRP mewn meddygfeydd teulu, ac mae wedi cyflwyno Start Smart ac yna Focus mewn gofal eilaidd, sef arolwg cyffredinolrwydd pwynt blynyddol o bresgripsiynu mewn gofal eilaidd. Mae Nik hefyd yn darparu mewnbyn proffesiynol i seilwaith TG cenedlaethol, gan gynnwys y bwrdd prosiect presgripsiynu electronig, ac mae'n cysylltu â Grŵp y Prif Fferyllwyr i gyflawni strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru.

### **Clair Huckerby – Fferyllydd Ymgynghorol ym maes Optimeiddio Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol**

Mae hon yn rôl newydd sy'n canolbwyntio ar ddarparu arbenigedd ac arweinyddiaeth ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau ar draws y system fferylliaeth, gan ddefnyddio dulliau haenu risg i flaenoriaethu ymyriadau i gleifion o fewn poblogaeth benodol. Mae rôl Clair yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion trwy gyflawni adolygiadau meddyginiaethol cymhleth mewn ymarfer cyffredinol, arwain gwasanaethau fferylliaeth gofal sylfaenol a chyfrifoldeb dros ddatblygu'r gweithlu fferyllol, gan annog ehangu trwy ymchwil a gwerthuso gwasanaethau a systemau fferylliaeth gofal sylfaenol.

Mae cyfraniad y fferyllydd ymgynghorol at ddatblygiad y gweithlu wedi cyflwyno ffordd o ddatblygu sgiliau i alluogi datblygiad gyrfa i fferyllwyr clinigol sy'n gweithio mewn ymarfer cyffredinol, gan gynnwys datblygu partneriaethau â phrifysgolion i sefydlu lleoliadau gofal sylfaenol israddedig fel rhan annatod o'r cwrs gradd mewn fferylliaeth. Mae gwaith mwy penodol ar lefel llwybr a phoblogaeth wedi dangos, drwy ddarparu arweinyddiaeth i dimau clinigol mewn practis cyffredinol a chynhyrchu deunyddiau i gefnogi presgripsiynu gwrthgeulyddion geneuol uniongyrchol (DOACs), fod cynnydd mewn adnabod ffibriliad atriaidd wedi'i nodi ochr yn ochr ag effaith gadarnhaol ar y Gyfradd Marwolaethau Safonedig Uniongyrchol ar gyfer strôc. Yn yr un modd, mae rhaglen a gefnogir o sgrinio a sicrhau dilyniant triniaeth ar gyfer cleifion risg uchel â phwysedd gwaed uchel wedi cynyddu'r tebygrwydd o adnabod a

thrin y cyflwr, gyda gostyngiad cyfatebol yn y gyfradd marwolaethau safonedig o glefydau cysylltiedig â phwysau gwaed uchel (o ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol dros ddegawd).

### **Carmel Darcy - Fferyllydd Ymgynghorol (Pobl Hŷn)**

Mae pum fferyllydd ymgynghorol sy'n arbenigo mewn pobl hŷn ledled Gogledd Iwerddon. Mae rôl Carmel yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer Optimeiddio Meddyginiaethau mewn Pobl Hŷn (Lleol) ac o fewn tîm Optimeiddio Meddyginiaethau Fferyllol Ymgynghorol mewn Pobl Hŷn (MOOP) (Rhanbarthol).

Mae gan Carmel gyfrifoldeb lleol a rhanbarthol am bob un o'r canlynol;

- Datblygu, gweithredu a gwerthuso modelau newydd o reoli achosion optimeiddio meddyginiaethau mewn gofal aciwt, canolradd, cartrefi gofal, a chartref y claf ei hun.
- Adeiladu a mentora rhwydweithiau fferyllwyr rheoli achos arbenigol ar draws pob lleoliad gofal a chan gynnwys Ymlyniad Meddyginiaeth, Eiddilwch, Cwmpiadau a Dementia.
- Arloesi a darparu gwasanaethau optimeiddio meddyginiaethau newydd sy'n canolbwyntio ar y claf yn y cartref i siroedd y gororau.
- Paratoi a darparu deunyddiau hyfforddi ac addysg, gweithdai a gweminarau i fferyllwyr a chydweithwyr y tîm amlddisgyblaethol ehangach.

Sicrhau cyllid a chynnal ymchwil sy'n edrych ar wella rheolaeth meddyginiaethau mewn pobl sy'n byw gyda dementia a ffyrdd newydd arloesol i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda Parkinson's i gael eu meddyginiaethau mewn da bryd.

**Tabl 1. Enghraifft o weithgareddau sy'n gysylltiedig â phob un o'r pileri ymarfer**

<b>Pileri Ymarfer</b>	<b>Enghreifftiau o weithgareddau a gyflawnwyd <u>ar lefel arbenigol</u> (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)</b>
<b>Ymarfer Clinigol</b>	Gweithgareddau yn ymwneud â chleifion Datblygu canllawiau, protocolau a llwybrau Rhoi cyngor arbenigol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill Goruchwyliaeth Clinigol
<b>Arweinyddiaeth</b>	Disgwylir iddi rychwantu holl weithgareddau'r ymgynghorydd Cyfrannu at ddatblygu strategaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol Ail-ddylunio gwasanaethau a llwybrau
<b>Addysg</b>	Paratoi a darparu sesiynau addysgol Datblygu'r cwricwlwm Goruchwyliaeth addysgol Mentora
<b>Ymchwil</b>	Ymchwil academiaidd Gwellu ansawdd ac arloesi Gwerthuso'r Gwasanaeth Rhannu canlyniadau

### 1.3 Cyd-destun

Mae staff y GIG yn ymdrechu i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r boblogaeth ond mae sawl her barhaus, gan gynnwys y bylchau mewn iechyd a llesiant, gofal ac ansawdd, a chyllid ac effeithlonrwydd<sup>3</sup>.

Mae presgripsiynu meddyginiaeth yn parhau i fod yr ymyrraeth therapiwtig amlaf a wneir yn y GIG ac o'u defnyddio yn briodol, mae meddyginiaethau'n lleihau morbidrwydd a marwolaeth, yn atal salwch ac yn cefnogi poblogaeth iach.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth gynyddol o'r niwed posibl y gall meddyginiaethau ei achosi, y gellid ei osgoi, ac mae'r gost yn ail yn unig i gostau staffio y GIG. Felly, mae mwy o ffocws ar sut mae meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n ddiogel er mwyn sicrhau'r budd a'r gwerth mwyaf posibl i unigolion a'r boblogaeth ehangach<sup>4</sup>.

Mae angen datblygiadau hefyd i gwrdd â'r heriau a grëir gan boblogaeth sy'n heneiddio sy'n byw gyda nifer o gydafiacheddau, yn ogystal â'r heriau a gyflwynir gan ymwrthedd gwrthficrobaidd, amlgyffuriaeth a all achosi problemau a galw cynyddol mewn amgylchedd cyfyngedig o ran adnoddau.

Yn ychwanegol at y pwysau sy'n wynebu'r GIG ar hyn o bryd mae cyfleoedd a heriau cynyddol yn dod yn sgil datblygiadau technolegol. Mae genomeg, meddyginiaethau addas i'r claf a chynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch (ATMPs) yn cyflwyno oes newydd gyffrous wrth drin nifer fawr o gyflyrau ond mae angen rheoli'r cymhlethdod a'r gost gynyddol hon mewn modd sy'n caniatáu i'r boblogaeth gyfan gael y budd mwyaf ohonynt.

Bydd cwrdd â'r holl ofynion hyn yn gofyn am newid ar raddfa fawr o'r tu mewn i'r GIG, gan gynnwys ffyrdd mwy arloesol a hyblyg o weithio a dibynnu ar arweinyddiaeth ac arbenigedd clinigol cryf.

Fel uwch glinigwyr ac arweinwyr system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda ffocws ar ddefnyddio meddyginiaethau, mae disgwyl i fferyllwyr ymgynghorol arwain rhai o'r newidiadau ar raddfa fawr sy'n angenrheidiol ar draws yr holl feysydd hyn.

Er ein bod yn cydnabod bod llawer o grwpiau staff yn y GIG yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau i fod yn ganolog i'r holl brosesau a gweithgareddau sy'n ymwneud â meddyginiaethau a sut y cânt eu defnyddio. Mae cydweithredu rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol a gweddill y tîm amlddisgyblaethol yn ofyniad craidd i sicrhau'r defnydd gorau posibl o feddyginiaethau. Mae fferyllwyr ymgynghorol yn cyfrannu at y tîm amlddisgyblaethol ar y lefelau uchaf yn ogystal â chefnogi a hwyluso'r cydweithredu hwn ar bob lefel ar draws y gwasanaeth gofal iechyd.

### 1.4 Datblygu swydd y Fferyllwyr Ymgynghorol hyd yn hyn

<sup>3</sup> NHSE (2014) Five Year Forward View

<sup>4</sup> NHS England (2018). NHS England » Medicines Value Programme. [online] England.nhs.uk. Ar gael yn: <https://www.england.nhs.uk/medicines/value-programme/> [Cafwyd mynediad ato ar 21 Mehefin. 2018]

Hyd yma, mae swyddi fferyllwyr ymgynghorol yn Lloegr wedi'u datblygu'n gyffredinol mewn ymateb i'r unigolion sydd ar gael neu anghenion lleol a sefydliadol ac fe'u lleolwyd bron yn gyfan gwbl mewn gofal eilaidd.

Mae'r rhan fwyaf o fferyllwyr ymgynghorol wedi canolbwyntio ar ddarparu gofal unigol ac er bod rhai wedi cefnogi datblygiadau cenedlaethol, gall y model cyflogaeth cyfredol a ddefnyddir gan y mwyafrif o gyflogwyr (fferylllydd ymgynghorol a gyflogir gan adran fferylliaeth ysbty neu gyfarwyddiaeth yn unig) gyfyngu ar yr effaith ehangach hon. Mae hyn yn her i gefnogi mynediad yr economi iechyd ehangach i arbenigedd y fferylllydd ymgynghorol.

Mae nifer o enghreifftiau lle mae fferyllwyr ymgynghorol sy'n gweithio ar draws ffiniau'r economi iechyd wedi cael effaith sylweddol ar iechyd y boblogaeth [gweler Blwch 2].

Er bod llawer o'r swyddi sydd wedi'u datblygu wedi cael effaith sylweddol ar ganlyniadau cleifion, mae nifer y swyddi ledled y wlad wedi bod yn gyfyngedig. Mae gwahaniaeth mawr hefyd yn y ffordd mae'r swyddi yn cael eu datblygu. Mae rhai ymddiriedolaethau a rhanbarthau â niferoedd mawr ac mae eraill, o faint, poblogaeth a lefel arbenigedd tebyg heb lawer neu ddim o gwbl. O'i gymharu â rhannau eraill o'r DU (Cymru a Gogledd Iwerddon), mae'r dull o ddatblygu swyddi fferyllwyr ymgynghorol yn Lloegr wedi bod yn llai strategol. Mae'r dull strategol a welwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon wedi'i hwyluso, yn rhannol, trwy ddatblygu swyddi fferyllwyr ymgynghorol ar y lefel ranbarthol. Dylai dyfodiad systemau gofal iechyd mwy integredig yn Lloegr ganiatau mabwysiadu'r dull mwy strategol hwn.

### **Blwch 2 Enghreifftiau o effaith fferyllwyr ymgynghorol:**

#### **Lleihau morbidrwydd a marwolaethau cardiofasgwlaidd**

Arweiniodd fferylllydd ymgynghorol a oedd yn gweithio ar draws dau Grŵp Comisiynu Clinigol yn Llundain gyfres o glinigau ar gyfer cleifion â chyflwr pwysau gwaed uchel nad oedd wedi ei drin yn effeithiol o'r blaen (SBP > 160 mmHg). Dilynwyd dros 1,500 o gleifion gyda gostyngiad cyfartalog i'r SBP o 25mmHg gan roi gostyngiad rhwng 40 a 70% yn nifer yr achosion o glefyd coronaidd y galon a strôc. Datblygodd yr un fferylllydd ymgynghorol rith fodel clinigol ar gyfer cynyddu nifer y cleifion â Ffibriliad Atriaidd sy'n cymryd meddyginiaethau gwrthgeulo. Dros bum mis, adolygwyd dros 1,500 o gleifion ac roedd bron i 1,300 ohonynt yn cymryd meddyginiaethau gwrthgeulo a fydd yn atal 45 strôc y flwyddyn ar draws y ddau Grŵp Comisiynu Clinigol, gan atal y morbidrwydd a'r marwolaethau cysylltiedig.

*Pan ymgymerais â fy rôl ymgynghorydd am y tro cyntaf, fy nod oedd darparu gofal wyneb yn wyneb i gleifion ac roeddwn yn gweithio mewn clinigau methiant y galon cymunedol ac yn darparu clinigau clefyd cardiofasgwlaidd mewn practisiau meddygon teulu.*

*Fodd bynnag, daeth yn amlwg i mi yn fuan fod maint y problemau o ran optimeiddio meddygaeth mewn gofal sylfaenol yn golygu, nad oedd yn ddigonol bod y gwaith roeddwn i'n ei wneud yn bwysig i gleifion unigol. Dros amser, datblygodd fy rôl yn rôl arweinyddiaeth glinigol. Es i ati i gomisiynu gwasanaeth dan arweiniad fferyllfa ar draws bwrdeistrefi ac ardaloedd, bues i'n mentora fferyllwyr i ddatblygu eu rolau sy'n ymwneud â chleifion a darparu goruchwyliaeth glinigol iddynt yn y practisiau, tra hefyd yn gwella arfer ein gweithlu nyrsys a meddygon teulu a fydd yn parhau i fod y man galw cyntaf i lawer o'r materion hyn - os gallant ei gael yn iawn y tro cyntaf; bydd gofal cleifion yn gwella a bydd y canlyniadau yn gwella hefyd. Cyflawnwyd uwchsgilio'r gweithlu gofal sylfaenol er mwyn iddynt allu gwneud y peth iawn trwy ddefnyddio ein rhith fodel clinigol sydd, trwy uwchsgilio staff rheng flaen, wedi*

*sicrhau gwelliant dramatig o ran rheoli pwysedd gwaed ac mae mwy o bobl sydd â'r cyflwr ffibriliad atrïaidd yn cymryd meddyginiaethau gwrthgeulo. Mae'r model ffibriliad atrïaidd bellach wedi derbyn cyllid NHSE ar gyfer rhaglen arddangoswyr cenedlaethol na fyddai wedi digwydd pe bawn i wedi aros ynghlwm â golwg gul ar ystyr ymarfer lefel ymgynghorydd. - Helen Williams, Fferylllydd Ymgynghorol*

### **Lleihau nifer y cleifion a aildderbynnir i'r ysbyty yn ddiangen oherwydd meddyginiaeth**

Arweiniodd fferylllydd ymgynghorol a oedd yn gweithio mewn ysbyty addysgu mawr brosiect a nododd gleifion ag angen meddyginiaeth ar ôl eu rhyddhau a chreodd Gynllun Gofal Meddyginiaethau (MCP) i fynd i'r afael â'r angen hwn. Dros chwe mis, aseswyd bod angen cefnogaeth ychwanegol ar 204 o gleifion hŷn aciwt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a rhoddwyd Cynllun Gofal Meddyginiaethau penodol iddynt. Roedd gan 175 (86%) o gleifion angen clinigol e.e. monitro, titradiad dos neu adolygiad o'u meddyginiaethau. Roedd gan 73 (36%) o gleifion anghenion cymorth meddyginiaethau e.e. cymhorthion cydymffurfio, annog meddyginiaethau. Roedd gan rai cleifion anghenion cymorth clinigol a meddyginiaethau. Cafwyd 285 o ail-dderbyniadau yn ystod cyfnod y prosiect. Ail-dderbyniwyd 33 (16%) o'r 204 o gleifion Cynllun Gofal Meddyginiaethau o'i gymharu â 252 (22%) o'r 1,161 o gleifion nad oeddent yn rhan o'r Cynllun Gofal Meddyginiaethau. Ni ellid bod wedi rhagweld unrhyw un o'r aildderbyniadau oedd yn gysylltiedig â meddyginiaeth yn y grŵp oedd yn rhan o'r Cynllun Gofal Meddyginiaethau. Mae'r prosiect bellach yn rhan annatod o wardiau pobl hŷn yr ymddiriedolaeth<sup>5</sup>.

## **1.5 Yr Achos dros Newid**

Mae nifer o newidiadau yn digwydd yn y GIG. Mae systemau gofal iechyd yn esblygu i gefnogi mwy o ofal cydgysylltiedig i'r boblogaeth ac mae partneriaethau yn tyfu rhwng sefydliadau'r GIG a chynghorau lleol. Mae dyfodiad y systemau gofal integredig hyn yn cefnogi ailgynllunio prosesau ac mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn agosach at gartrefi pobl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl menter wedi ceisio gwella sgiliau clinigol cyffredinol y gweithlu fferyllol a'u defnyddio yn y meysydd sydd eu hangen, gan gynnwys practisiau meddygon teulu, cartrefi gofal a chanolfannau gofal brys.

Mae hyn yn dangos bod angen datblygu rolau fferyllwyr ymgynghorol ar draws system gofal iechyd lle gallant gynyddu effaith eu harbenigedd i'r eithaf, gan gynorthwyo'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol i wella'r gofal mae'r boblogaeth yn ei dderbyn ar draws y system gofal iechyd.

Fel yr amlygwyd uchod, mae triniaethau a phenderfyniadau triniaeth yn dod yn fwyfwy cymhleth ac felly mae mae angen rhagor o gymorth ar y timau amlddisgyblaethol gan y gweithwyr fferyllol proffesiynol. Mae'r cymhlethdod hwn yn digwydd ar lefel unigolion ond hefyd ar lefel y boblogaeth. Ar ben mwyaf cymhleth y sbectrwm hwn, mae angen i dimau amlddisgyblaethol a chleifion gael mynediad at arbenigedd clinigol ar lefel fferylllydd ymgynghorol.

<sup>5</sup> 2017Acomb C, Laverty U, Smith H, Fox G, Petty D (2013) Medicines optimisation on discharge. Prosiect The Integrated Medicines oPtimisAtion on Care Transfer (IMPACT) . Int J Pharm Pract 2013; 21 (supp 2) 123-124.

Mae darparu fferyllwyr clinigol yn barhaus mewn amrywiol leoliadau, sydd wedi'u hynysu oddi wrth weithwyr proffesiynol fferyllol eraill, yn golygu bod angen creu systemau i gael mynediad at arbenigedd gweithwyr proffesiynol arbenigol er mwyn sicrhau cymorth trwy gysylltiadau a rhwydweithiau proffesiynol cryf ar draws pedwar cenedl.

Cydnabyddir hefyd bod gan fferyllwyr yrfaeodd portffolio yn aml, a byddant o bosibl yn gweithio i nifer o gyflogwyr ac yn cyflawni gwahanol rolau. Felly, mae angen i'r systemau cydnabod ar gyfer swyddi ac unigolion fod yn ddigon hyblyg i gefnogi'r fferyllwyr hyn i ddarparu'r gofal gorau posibl ac iddynt gael cyflawni eu dyheadau gyrfaol.

Er mwyn cwrdd â'r heriau a amlygwyd uchod a'r heriau sy'n dod i'r amlwg yn gyson yn y GIG, bydd angen mynediad eang at arbenigedd ac arweinyddiaeth glinigol. Rhaid creu swyddi fferyllwyr ymgynghorol sy'n denu ac yn cadw'r rheiny sydd â'r lefel uchaf o arbenigedd clinigol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Rhaid i'r arbenigwyr hyn gael eu lleoli yn briodol fel y gall pob claf a gweithiwr proffesiynol ar draws system gofal iechyd elwa ar eu harbenigedd ac er mwyn i'r unigolyn sy'n cyflawni'r swyddi allu dylanwadu ar y system leol er budd y boblogaeth gyfan.

Mae'r proffesiwn fferylliaeth yn datblygu yn unol ag anghenion y GIG ac mae mwy o unigolion yn ymgymryd â rolau clinigol estynedig gyda chynnydd mewn ymreolaeth a chyfrifoldeb. Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a'r boblogaeth ehangach, mae angen mecanweithiau sicrwydd cadarn, gan gynnwys gwirio cymwysterau'r unigolion hynny sy'n gweithio mewn rolau clinigol estynedig, ymreolaethol.

## 1.6 Nodau

Er bod egwyddorion canllawiau 2005 wrth wraidd y ddogfen hon, dyma nodau ychwanegol y canllawiau, sef:

- Tynnu sylw at fudd fferyllwyr ymgynghorol wrth gyfrannu at well canlyniadau i gleifion ac i'r boblogaeth, trwy ddarparu gofal yn ogystal ag ymchwil ac arloesi ar draws y system gofal iechyd
- Gwella mynediad at arbenigedd clinigol lefel uchel i gleifion, y cyhoedd, y proffesiwn fferylliaeth a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- Amlinellu disgwyliadau swyddi fferyllwyr ymgynghorol, diffinio arfer arbenigol a chefnogi arfer gorau wrth gynllunio swyddi
- Cefnogi'r gwaith o greu swyddi yn strategol i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol
- Awgrymu mecanwaith gwirio cymwysterau cadarn i roi sicrwydd ynghylch gallu ac arbenigedd unigolion sy'n gweithio ar y lefel uchaf
- Cefnogi gweithlu o fferyllwyr ymgynghorol cynaliadwy, trwy gynllunio, hyfforddi a chynllunio olyniaeth
- Datblygu canllawiau sy'n berthnasol ar draws y pedair gwlad

## 1.7 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ysgrifennwyd y canllaw hwn yn ysbryd Deddf Cydraddoldeb 2010, dylai'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ôl-gymeradwyo, gwirio cymwysterau a chynnal cyfeirlyfr roi sylw dyledus i'r angen i:

- Dileu gwahaniaethu, harasio, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd yn nol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.



## 2. Ymarfer Fferyllydd Ymgynghorol

### 2.1 Beth yw Ymarfer Arbenigol i fferyllydd ymgynghorol?

Mae ymarfer arbenigol fferyllydd ymgynghorol yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau gan gynnwys maes yr ymarfer, lefel y profiad yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol a sefydliadol. Mae'n cynnwys gofal clinigol uniongyrchol a/neu weithgareddau clinigol anuniongyrchol (datblygu canllawiau, arweinyddiaeth fformiwlâu / llywodraethu a goruchwyliaeth glinigol), ymchwil, gan gynnwys gwella a gwerthuso ansawdd, addysg, hyfforddiant a mentora. Mewn rhai achosion, gall gynnwys rheoli unigolion neu wasanaethau ac, yn anad dim, gall gynnwys arweinyddiaeth, ac mae disgwyl i hyn rychwantu'r holl weithgareddau mae'n eu cyflawni.

Mewn lleoliad priodol, gall fferyllwyr ymgynghorol gael effaith bwysig ar ganlyniadau cleifion a dangoswyd hyn mewn nifer o leoliadau [gweler Blwch 2].

Disgwylir i fferyllwyr ymgynghorol gael eu cyflogi mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'u budd posibl. Er enghraifft, os yw'n cyflawni gofal clinigol uniongyrchol, disgwylir i'r fferyllydd ymgynghorol weld unigolion ag anghenion fferyllol cymhleth iawn a gwneud penderfyniadau ymreolaethol sy'n canolbwyntio ar y claf, gan weithio'n agos gyda'r rheiny sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros ofal y claf ac, mewn rhai achosion, gymryd cyfrifoldeb am y bennod ofal gyfan.

Disgwylir i fferyllwyr ymgynghorol arwain ar brosiectau arloesi a gwella ansawdd yn eu meysydd ymarfer ac ar draws eu sefydliadau, a chyflawni rôl strategol yn natblygiad canllawiau, polisiau a gweithgareddau llywodraethu cysylltiedig eraill. Disgwylir iddynt weithredu fel cyswllt rhwng y blaenoriaethau yn eu meysydd ymarfer, eu sefydliad(au), eu hardal a'r proffesiwn.

Yn ogystal ag arwain arloesi, mae disgwyl i fferyllwyr ymgynghorol gynnal a goruchwyllo ymchwil ac, yn benodol, hyrwyddo ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer a rhannu canlyniadau prosiectau gwella ansawdd. Disgwylir iddynt gyfrannu at ddatblygu cwestiynau a methodolegau ymchwil, a hynny yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Disgwylir iddynt hefyd sicrhau bod prosesau yn gadarn ac yn debygol o gynhyrchu'r data sy'n ofynnol i gyflawni'r nodau a'r amcanion.

Disgwylir i fferyllwyr ymgynghorol ddylunio a darparu addysg, yn ogystal â darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth glinigol leol a chyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm yn eu meysydd ymarfer. Disgwylir iddynt fod yn rhan o hyfforddi staff ar draws y graddau, proffesiynau a ffiniau sefydliadol er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn y gwerth gorau posibl o'u meddyginiaethau. Disgwylir i fferyllwyr ymgynghorol geisio mentora a hyfforddi uwch fferyllwyr sy'n gweithio gyda nhw (yn eu sefydliadau, neu y tu allan i'w sefydliadau ac o fewn eu meysydd ymarfer) gyda'r nod o ddatblygu'r gweithlu ymgynghorol ymhellach a chyfrannu at gynllunio olyniaeth ar gyfer eu rolau eu hunain.

Ar draws holl weithgareddau'r ymgynghorwyr, mae disgwyl iddynt weithredu fel arweinwyr clinigol, gan wella statws gweithwyr fferyllol proffesiynol yn eu meysydd ymarfer, dadlau o blaid eu meysydd ymarfer yn y proffesiwn a hyrwyddo'r proffesiwn fferyllol ar draws y sector gofal iechyd a chymdeithasol cyfan.

I grynhoi, disgwylir i ymarfer arbenigol ar gyfer fferylllydd ymgynghorol gynnwys ymgymryd â gweithgareddau (ar draws unrhyw un o'r pedwar piler ymarfer clinigol, arweinyddiaeth, addysg ac ymchwil) sy'n defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau helaeth i gyfrannu at ofal clinigol o'r lefel uchaf. Naill ai ar lefel unigolion i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf neu ar lefel systemau neu boblogaeth, fel bod y nifer uchaf o unigolion yn elwa ar eu mewnbwn. Mae ymarfer arbenigol yn cynnwys gweithgareddau sy'n gofyn am wybodaeth a sgiliau ar lefel arbenigol.

## 2.2 Cynllunio swyddi

Fel adnodd gwerthfawr iawn, mae angen defnyddio amser fferyllwyr ymgynghorol mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gleifion ac i'r boblogaeth. Bydd yr amser a dreulir ar bob un o'r pileri yn amrywio rhwng swyddi, yn ôl eu meysydd ymarfer, lefel eu profiad yn ogystal â blaenoriaethau sefydliadol, lleol a chenedlaethol. Efallai y bydd gan fferyllwyr ymgynghorol rolau sydd y tu allan i'r sefydliad hefyd, a fydd o bosibl yn cael eu hariannu ac a fydd yn cyfrif am gyfran o amser yr ymgynghorydd neu'n digwydd ar sail ad-hoc e.e. cyfrannu at ganllawiau cenedlaethol newydd.

Mae ymrwymiad i gynllunio swyddi yn rheolaidd yn ofyniad craidd ar gyfer cymeradwyo swydd fferylllydd ymgynghorol. Disgwylir i gynllunio swyddi fod yn broses gydweithredol rhwng y fferylllydd ymgynghorol a'i reolwr(wyr), a bydd yn seiliedig ar y canlyniadau gofynnol ar gyfer yr unigolion sy'n derbyn gofal a/neu'r boblogaeth, anghenion cyfredol a sgiliau ac anghenion datblygu'r ymgynghorydd. Disgwylir i unrhyw iteriad o'r cynllun swydd hwyluso'r ymgynghorydd i dreulio o leiaf 80% o'i amser yn darparu ymarfer arbenigol fel y'i diffinnir uchod. Er y byddai disgwyl i'r diffiniad uchod gwmpasu holl weithgareddau llawer o'r ymarferwyr, mae angen rhywfaint o hyblygrwydd, er enghraifft er mwyn caniatáu rhai gweithgareddau rheoli neu er mwyn darparu rhywfaint o wasanaethau y tu allan i'r maes ymarfer ac ati.

Mae canllawiau enghreifftiol ar gyfer cynllunio swyddi ar gael yn Atodiad 2

## 3. Cymeradwyo swyddi fferyllwyr ymgynghorol

### 3.1 Pam mae angen cymeradwyo swyddi?

Er mwyn bodloni'r egwyddorion a nodir yn adran 1.1, mae angen cymeradwyo swyddi mewn dull safonol, cyson a chadarn. Mae angen hyn er mwyn darparu swyddi sydd ar y lefel briodol ar gyfer fferyllydd ymgynghorol, heb ystyried y sefydliad(au) sy'n cyflogi neu'r lleoliad.

Oherwydd y pwysau sy'n wynebu'r GIG, mae angen i swyddi fferyllwyr ymgynghorol gynyddu potensial y fferyllydd ymgynghorol unigol er mwyn cael effaith ar gleifion ar draws yr economi iechyd. Er mwyn cefnogi hyn, disgwylir i swyddi gael eu datblygu'n strategol mewn ymateb i'r angen lleol a hwyluso gwaith yr ymgynghorydd ar draws yr economi iechyd.

Disgwylir i'r cais ar gyfer cymeradwyo swydd ddangos bod yr angen hwn wedi'i ystyried a dylai ddangos sut mae'r angen hwn wedi'i ymgorffori yn y swydd (swydd wedi'i rhannu, cyllid gan wahanol sefydliadau, defnyddio perthnasoedd sefydledig, swydd sy'n croesi'r economi iechyd yn naturiol am fod pob claf yn cael mynediad at yr un gwasanaeth arbenigol ac ati).

Gellir gweld enghreifftiau o swyddi ymgynghorwyr presennol mewn blychau testun ac mae modelau ar gyfer gweithredu wedi'u cynnwys yn atodiad 3.

### 3.2 Meini prawf ar gyfer cymeradwyo swydd

Er mwyn i swydd gael ei chymeradwyo, rhaid iddi fodloni'r holl feini prawf isod. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am y manylion a ddarperir yn rhan o'r cais.

Disgwylir i'r cais ddangos sut y bydd gan y swydd rôl arwain gref ar draws y system gofal iechyd a sut y bydd yr ymgynghorydd yn cyfrannu at ofal ar draws y pedwar piler ymarfer (gweler Tabl 1).

Rhaid nodi'r swydd ddisgrifiad a'r fanyleb person yn glir.

Rhaid nodi rheolaeth ac adnoddau digonol (gan gynnwys goruchwyliaeth / cefnogaeth glinigol fel y bo'n briodol). (Gweler 3.3)

Rhaid ymrwymo hefyd i gynllunio swyddi yn rheolaidd. (Gweler 2.2)

Mae fferyllwyr ymgynghorol yn aml yn meddu ar lawer iawn o arbenigedd a gwybodaeth arbenigol y maent wedi'u meithrin dros nifer o flynyddoedd. Mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i rannu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau yn absenoldeb y fferyllydd ymgynghorol. Disgwylir i ystyriaeth gael ei rhoi i gynllunio olyniaeth fel rhan o gyflwyno cais am swydd; gallai hyn gynnwys swyddi uwch fferyllwyr eraill o fewn y maes ymarfer, yn y sefydliad, yn yr

economi iechyd, neu gysylltiadau a gynhelir trwy grwpiau diddordeb arbenigol cenedlaethol.

Mae cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch yn ddymunol i fferyllwyr ymgynghorol gan fod hyn yn helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno ymchwil ac yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar gwricwla a meysydd llafur ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fel ei gilydd. Gall y cysylltiadau hyn fod yn ffurfiol neu'n anrhydeddus, acyn gysylltiedig ag ymchwil, addysg neu'r ddau.

### 3.3 Trefniadau rheoli llinell

Disgwylir i uwch staff priodol fod yn rheolwyr llinell ar fferyllwyr ymgynghorol. Gallant gael eu huwch-reoli o fewn neu y tu allan i'r gwasanaeth fferylliaeth ond fe'u cynghorir i gynnal perthynas waith gref ag uwch arweinwyr fferyllol eraill. Rhaid i'w trefniadau rheoli llinell sicrhau bod ganddynt gefnogaeth ac adborth ar bob agwedd ar eu swyddi, gan gynnwys gofal clinigol lefel uchel, cymhleth, uniongyrchol. I lawer o fferyllwyr ymgynghorol, gall hyn olygu bod angen eu rheoli ar y cyd gan fwy nag un rheolwr llinell, a gall un ohonynt fod yn uwch glinigydd arall.

Efallai y bydd fferyllwyr ymgynghorol yn gyfrifol am reoli staff neu wasanaethau eraill yn unol â gofynion eu swydd.

### 3.4 Panel cymeradwyo swyddi

Disgwylir i swyddi gael eu cymeradwyo gan banel o arbenigwyr, yn erbyn y meini prawf uchod.

Bydd aelodaeth y panel yn cynnwys arbenigwr clinigol ym maes ymarfer y swydd, arweinydd fferyllfa sydd â rôl system gyfan, cynrychiolaeth gan gomisiynydd addysg ac aelod o'r sefydliad sy'n cymeradwyo'r swydd.

Bydd aelodaeth gyfredol benodol yn cael ei diffinio gan swyddfa'r Prif Swyddog Fferyllol.

### 3.5 Dogfennaeth cymeradwyo'r swydd

Bydd y panel yn asesu, o leiaf

- Ffurflen gais profforma
- Swydd Ddisgrifiad
- Manyleb y person
- Strwythur sefydliadol, gan dynnu sylw at safle swydd y fferylllydd ymgynghorol
- Cynllun swydd enghreifftiol

### 3.6 Canlyniad y broses gymeradwyo

Bydd pob panel yn adrodd i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais bod y swydd yn un o'r canlynol:

- Wedi cael ei chymeradwyo ei bod yn gyson â'r safonau a'r ansawdd a amlinellir yng nghanllaw 2020 ar gyfer datblygu swyddi fferyllwyr ymgynghorol
- Wedi cael ei chymeradwyo fel uchod gydag amodau (Nid oes angen mewnbwn pellach gan y panel - y cyfan sy'n ofynnol yw cadarnhad bod yr amodau'n cael eu derbyn)
- Amodol - mae'r panel yn nodi pa newid sy'n ofynnol ac yn gweld fersiwn ddiwygiedig (gall y cadeirydd ei gymeradwyo)
- Heb ei chymeradwyo - mae'r panel yn nodi pam ac mae angen ei hailgyflwyno i banel llawn

Disgwylir i'r panel fod â phroses apelio os na chaiff y swydd ei chymeradwyo.

## 4. Dod yn fferyllydd ymgynghorol

### 4.1 Fframwaith Gyrfaol

Yn draddodiadol, roedd y llwybr tuag at ddod yn fferyllydd ymgynghorol yn seiliedig ar gyfuniad o gymhelliant unigol a lwc dda. Mae datblygiadau ar y gweill, dan arweiniad y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, i ddatblygu fframwaith gyrfaol cydnabyddedig strwythuredig a fydd yn cefnogi creu gweithlu fferylliaeth glinigol, a all ddarparu gofal lefel uchel mewn unrhyw leoliad. Bydd y fframwaith hefyd yn tynnu sylw at y lefel cyflawniad sy'n ofynnol ar gyfer unigolion ar bob cam o'u gyrfaoedd. Fferyllwyr ymgynghorol fydd yn darparu'r lefel uchaf o ymarfer fel fferyllwyr sy'n gweithio mewn maes clinigol.

### 4.1 Hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr ymgynghorol

Mae fferyllwyr angen mynediad at oruchwyliaeth glinigol ac addysgol briodol trwy gydol eu gyrfaoedd, ynghyd â fframweithiau ar gyfer hunanasesu i nodi anghenion datblygu. I'r rheiny sy'n dymuno dod yn fferyllwyr ymgynghorol, disgwylir iddynt ddefnyddio'r [Fframwaith Fferylliaeth Uwch](#) (APF)<sup>6</sup> fel fframwaith i bennu eu hanghenion datblygu ac mae'n bosibl y byddant yn elwa ar fentoriaeth gan fferyllydd ymgynghorol presennol. Dewiswyd y fframwaith hwn, sydd ar gael am ddim i bob fferyllydd yn y DU, gan ei fod yn adeiladu ar ei ragflaenydd, y Fframwaith Lefel Ymgynghorydd ac Uwch (ACLF) a ddilyswyd yn gadarn<sup>7</sup> a gafodd ei gynnwys yng nghanllawiau 2005, yn ogystal â gwaith pobl eraill gan gynnwys Cynllun Hyfforddiant Galwedigaethol NHS Education for Scotland (NES). Bydd y Fframwaith Fferylliaeth Uwch hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesu gallu'r rheiny sy'n dymuno dangos eu parodrwydd ar gyfer swydd fferyllydd ymgynghorol.

Rhaid bod gan fferyllwyr ymgynghorol lefel uchel o arbenigedd a sgiliau ar draws pedwar piler ymarfer clinigol, arweinyddiaeth, addysg ac ymchwil. Datblygir y rhain trwy gydol eu gyrfaoedd. Bydd rhai yn ymgymryd â chymwysterau ôl-raddedig sy'n cwmpasu un neu fwy o'r pileri ymarfer (e.e. ymchwil ar lefel meistr neu uwch, tystysgrif ôl-raddedig mewn addysg).

Bydd angen i'r rheiny sy'n dyheu am fod yn fferyllydd ymgynghorol ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ar draws pedwar piler ymarfer. I gyflawni hyn, bydd angen llawer iawn o ddysgu hunangyfeiriedig a dysgu yn y gweithle. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i gyflogwyr a chomisiynwyr addysg sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol ar gael.

Mae pedwar piler ymarfer craidd ar gyfer fferyllwyr ymgynghorol, sy'n gyffredin i bob ymarferydd ymgynghorol ar draws y proffesiynau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae

<sup>6</sup> The Royal Pharmaceutical Society, 2013, The Royal Pharmaceutical Society Advanced Pharmacy Framework

<sup>7</sup> Wright, D and Morgan, L (2011). Ysgol Fferylliaeth, Prifysgol East Anglia. Gwerthusiad annibynnol o fframweithiau ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn fferylliaeth: o'r MPC Workstream 2 project: gwerthusiad annibynnol o fframweithiau cymhwysedd o fewn addysg fferylliaeth yn y DU.

chwe pharth yn y Fframwaith Fferylliaeth Uwch. Mae piler craidd arweinyddiaeth yn cwmpasu agweddau arweinyddiaeth a rheolaeth y Fframwaith Fferylliaeth Uwch. Asesir piler craidd ymarfer clinigol gan barth ymarfer proffesiynol arbenigol y Fframwaith Fferylliaeth Uwch. Mae parth perthnasoedd gweithio cydweithredol y Fframwaith Fferylliaeth Uwch yn rychwantu pob un o'r pedwar piler ymarfer (gweler Tabl 2).

Mae'r Fframwaith Fferylliaeth Uwch yn fframwaith ar gyfer asesu cymhwysedd unigolion ar draws y chwe chlwstwr tra bo pileri craidd ymarfer yn ymwneud ag arfer yr ymgynghorydd ar ôl ei benodi. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r berthynas rhwng y ddau.

**Tabl 2. Y berthynas rhwng pileri ymarfer Fferylllydd Ymgynghorol a'r Fframwaith Fferylliaeth Uwch**

Pileri Ymarfer	Clwstwr Fframwaith Fferylliaeth Uwch Cyfatebol	
<b>Ymarfer Clinigol</b>	1. Ymarfer Proffesiynol Arbenigol	2. Cysylltiadau Gweithio Cydweithredol 
<b>Arweinyddiaeth</b>	3. Arweinyddiaeth 4. Rheoli	
<b>Addysg</b>	5. Addysg, Hyfforddi a Datblygu	
<b>Ymchwil</b>	6. Ymchwil a Gwerthuso	

### 4.3 Gwirio cymwysterau unigolion

Diogelwch, iechyd a llesiant cleifion a'r boblogaeth ehangach yw prif ystyriaeth y GIG a rhaid ystyried hyn wrth greu unrhyw swydd ac wrth ddatblygu staff. Rhaid bod lefel uchel o sicrwydd ar bob lefel, ond yn enwedig i'r fferyllwyr ymgynghorol, sy'n ymgymryd â gofal ymreolaethol, gan wneud penderfyniadau lle mae tystiolaeth yn gyfyngedig, mewn meysydd o amwysedd clinigol ac mewn sefyllfaoedd cymhleth neu brin.

Yn gyntaf, rhaid i gymwysterau unrhyw unigolyn sy'n dymuno gweithio mewn rôl fferylllydd ymgynghorol gael eu gwirio ar lefel ymgynghorydd trwy broses gadarn a rhaid i'r unigolyn gael ei asesu yn erbyn y Fframwaith Fferylliaeth Uwch (APF)<sup>5</sup>.

### 4.4 Y Broses Gwirio Cymwysterau

Bydd y sefydliad(au) gwirio cymwysterau yn gyfrifol am ddatblygu proses gwirio cymwysterau cadarn. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth a rhaid asesu ymgeiswyr ar draws y pedwar piler ymarfer gan ddefnyddio'r Fframwaith Fferylliaeth Uwch.

Rhaid i'r broses gwirio cymwysterau fod ar gael i bob fferyllydd cofrestredig. Nid oes angen bod yn aelod o unrhyw sefydliadau penodol.

Yn ogystal ag arddangos trylwyredd addysgol, disgwylir i'r broses gwirio cymwysterau gael mewnbwn gan arbenigwyr priodol sydd ag arbenigedd clinigol ym maes ymarfer yr ymgeisydd, llwyddiant blaenorol wrth arwain, llwyddiant blaenorol mewn ymchwil cyfredol gan gynnwys nifer o gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid. ac arbenigedd mewn addysg a hyfforddiant.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu dangos 'meistrolaeth' yn y mwyafrif helaeth o gymwyseddau o fewn y clystyrau Ymarfer Proffesiynol Arbenigol, Cysylltiadau Gwaith Cydweithredol, ac Arweinyddiaeth. Dyma elfennau craidd yr holl swyddi fferyllydd ymgynghorol a dyma'r gweithgareddau y mae'n rhaid i bob unigolyn eu cyflawni cyn cael eu penodi i swydd fferyllydd ymgynghorol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos cam ll uwch o leiaf yn y tri chlwstwr sy'n weddill (Ymchwil a Gwerthuso, Addysg, Hyfforddiant a Datblygiad, a Rheolaeth). Mae'r rhain hefyd yn bwysig ar gyfer cyflawni rôl fferyllydd ymgynghorol, sy'n gofyn am lefel uchel o arbenigedd. Cydnabyddir y gellir cyflawni meistrolaeth yn y meysydd ymchwil ac addysg dim ond ar ôl i unigolyn weithio mewn rôl fferyllydd ymgynghorol.

Ar ddiwedd y broses gwirio cymwysterau, rhaid hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad a allai fod yn llwyddiannus, yn llwyddiannus gydag amodau i'w bodloni, neu'n aflwyddiannus. Rhaid cael proses glir ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus sy'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad.

Unwaith y bydd y broses gwirio cymwysterau wedi'i sefydlu, rhaid gwirio pob penodiad newydd i swyddi ymgynghorol trwy'r broses hon. Ar gyfer fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau'r GIG, mae defnydd o'r teitl 'fferyllydd ymgynghorol' wedi'i gyfyngu i'r rheiny sy'n cael eu gwirio ar lefel ymgynghorydd ac sydd wedi'u penodi i swydd fferyllydd ymgynghorol cymeradwy.

## 4.5 Cofrestr Unigolion sydd wedi'u Gwirio

Disgwylir i gyfeiriadur o'r holl unigolion sydd wedi'u gwirio gael ei greu a'i gynnal ac y bydd ar gael ar draws y pedair gwlad. Mae gan gyrff sy'n dyfarnu gwiriad llwyddiannus gyfrifoldeb i ddiweddarau'r gofrestr pan fydd unigolyn newydd yn cael ei wirio. Rhaid tynnu enwau oddi ar y gofrestr os nad yw unigolyn bellach yn gweithio fel fferyllydd, a bydd unrhyw feini prawf eraill ar gyfer tynnu unigolyn yn cael eu penderfynu gan y sefydliad gwirio cymwysterau.

## 4.6 Meini Prawf ar gyfer Cynnal a Chadw

Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal gwirio cymwysterau yr un fath ag ar gyfer ailddilysu ar gyfer pob gweithiwr fferyllol proffesiynol.

Rhaid i'r cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus, trafodaeth cymheiriaid a'r cyfrif myfyriol gwmpasu pedwar piler ymarfer clinigol, ymchwil, addysg ac arweinyddiaeth. Rhaid i'r drafodaeth gael ei chynnal gydag uwch gydweithiwr addas a rhaid i'r holl weithgareddau fod ar y lefel a ddisgwylir gan fferyllydd ymgynghorol.




Cyfrifoldeb cyflogwr y fferylllydd ymgynghorol trwy eu rheolwr (rheolwyr) llinell yw sicrhau bod fferyllwyr ymgynghorol yn gweithio ar y lefel briodol.

#### 4.7 Gwahaniaethu fferyllwyr ymgynghorol oddi wrth rolau uwch fferyllwyr clinigol eraill

Nodir bod cryn orgyffwrdd ag uwch rolau eraill, yn enwedig uwch ymarferwyr clinigol. Mae Fferyllwyr Ymarfer Clinigol Uwch yn mynd trwy broses gwirio cymwysterau ac yn gweithio ar draws yr un pedwar piler â fferyllwyr ymgynghorol. Maent hefyd yn gyfrifol am ddarparu llawer iawn o ofal clinigol ymreolaethol. Mae gwahaniaethau allweddol yn lefel ymarfer a dylanwad rolau uwch fferyllwyr clinigol, yn fwyaf arbennig yn eu cylch dylanwad Gweler ffig.1.

Ffig.1. Cymhariaeth o ymarfer ar gyfer Uwch Ymarferwyr Clinigol Fferyllol a Fferyllwyr Ymgynghorol.



## 5. Penodiad i swydd ymgynghorydd

### 5.1 Meini prawf ar gyfer penodi fferyllwyr mewn swydd ymgynghorydd

I gael eich penodi i swydd ymgynghorydd rhaid i unigolyn fod;

**Wedi'i wirio** ar lefel fferyllydd ymgynghorol gan y panel annibynnol sy'n gyfrifol am wirio\*

**neu**

**Yn ddeiliad swydd Etifeddol** oedd wedi'i benodi i swydd fferyllydd ymgynghorol cymeradwy cyn cyhoeddi'r canllawiau hyn

\* Bydd trefniant dros dro ar waith nes bydd y broses gwirio cymwysterau wedi'i sefydlu. Gellir penodi unigolion gan banel penodi sy'n fodlon bod yr unigolyn sy'n gwneud cais am y swydd yn dangos ei fod wedi cyflawni'r lefel cymhwysedd yn erbyn yr Uwch Fframwaith Fferylliaeth a ddisgwylir gan fferyllydd ymgynghorol (Gweler adran 4.4).

### 5.2 Tâl fferyllwyr ymgynghorol

Disgwylir i swydd ddisgrifiad y fferyllydd ymgynghorol gael ei adolygu gan y panel paru priodol. O dan drefniadau cyfredol yr Agenda ar gyfer Newid, byddai disgwyl i'r mwyafrif o swyddi fod yn cyfateb i lefel 8c neu lefel gyfatebol os bydd y trefniadau'n newid. Mewn rhai achosion gall fod ffactorau sy'n cyfrannu at y ffaith bod y swydd yn derbyn band gwahanol (8b neu 8d) sy'n gysylltiedig â lefel yr ymarfer neu'r cyfrifoldeb ar draws y pedwar piler ymarfer er enghraifft, graddfa'r cylch dylanwad (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol), lefel yr ymchwil, lefel y cyfrifoldeb rheoli. Rhaid amlinellu'r ffactorau hyn yn y cais i gymeradwyo swydd ymgynghorydd.

Er enghraifft, os yw rôl yn cynnwys annog ymchwil a hwyluso addysg, yn hytrach nag arloesi, cynllunio a darparu, gallai hyn olygu band 8b neu gyfwerth. Gellid creu'r swyddi hyn hefyd fel dilyniant gyrfaoel i 8c lle bydd angen datblygu ymhellach yn y meysydd hyn. Gallai rôl 8d neu gyfwerth gynnwys gwaith strategol cenedlaethol fel rhan o arweinyddiaeth a/neu reoli lefel uwch. Os mai ffocws y rôl yn bennaf yw darparu gwasanaeth lefel uwch, gall ymarferydd uwch fod yn fwy priodol

Ar ôl i swydd gael ei chymeradwyo, nid oes angen ei hailgyflwyno ar gyfer ei chymeradwyo pan ddaw swydd yn wag neu pan fydd newidiadau bach yn cael eu gwneud i'r swydd ddisgrifiad. Pan fydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i swydd ddisgrifiad, bydd angen ei hailgyflwyno ar gyfer ei chymeradwyo.

## 6. Argymhellion

### 6.1 Creu swydd

- Disgwylir i arweinwyr ar draws systemau gofal iechyd ystyried sut y gellir creu swyddi fferyllwyr ymgynghorol i gefnogi datblygiadau mewn triniaeth a/neu leddfau pwysau sy'n gysylltiedig â meddygaeth (clinigol, ariannol, gweithlu).
- Rhaid i'r rheiny sy'n gyfrifol am greu swyddi fferyllwyr ymgynghorol ystyried goblygiadau swyddi gofal iechyd a lle bo hynny'n briodol, ystyried datblygu swyddi ar draws y system gofal iechyd.

### 6.2 Penodi

- Er mwyn defnyddio'r teitl Fferyllwyr Ymgynghorol yn y GIG, rhaid i gymwysterau unigolyn gael eu gwirio ar lefel ymgynghorydd gan banel annibynnol a rhaid iddo gael ei gyflogi mewn swydd gymeradwy neu fod yn ddeiliad swydd etifeddol.

### 6.3 Cymeradwyo'r penodiad

- Rhaid sefydlu proses cymeradwyo penodiadau gynaliadwy.
- Rhaid i'r broses gymeradwyo asesu safon y rôl arfaethedig, yr effaith ar y system gofal iechyd, cynllunio olyniaeth a threfniadau ar gyfer cynllunio swyddi, rheoli a goruchwyllo.
- Bydd y broses yn cynnwys panel adolygu, a fydd yn cynnwys arbenigwr clinigol ym maes ymarfer y swydd, arweinydd fferyllfa sydd â rôl system gyfan, cynrychiolaeth gan gomisiynydd addysg a chynrychiolaeth leyg.
- Rhaid cadw cofrestr o swyddi cymeradwy a rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd ledled y pedair gwlad.

### 6.4 Datblygu unigolion

- Dylai comisiynwyr addysg weithio gyda chyflogwyr a darparwyr addysg i greu cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu unigolion i fod yn fferyllwyr ymgynghorol.

### 6.5 Gwirio cymwysterau unigolion

- Bydd fferyllwyr sy'n dymuno cael eu penodi i rôl fferyllwyr ymgynghorol yn mynd trwy broses gwirio cymwysterau annibynnol, a byddant yn dangos arbenigedd yng nghlystyrau ymarfer arbenigol, arweinyddiaeth a pherthynas waith gydweithredol y Fframwaith Fferylliaeth Uwch. At hynny, byddant yn dangos eu bod yng ngham uwch ll o leiaf o'r clystyrau rheoli, addysgu,

hyfforddi a datblygu, yn ogystal â'r clystyrau ymchwilio a gwerthuso

- Bydd y broses gwirio cymwysterau yn seiliedig ar dystiolaeth, bydd yn drwyadl o ran addysg a bydd mewnbwn gan arbenigwyr diffiniedig priodol.
- Cynhelir cofrestr o unigolion y mae eu cymwysterau wedi'u gwirio a bydd ar gael i'r cyhoedd ar draws y pedair gwlad.

### **6.6 Ymarfer Arbenigol**

- Disgwylir i fferyllwyr ymgynghorol dreulio 80% o'u hamser ar weithgareddau sy'n rhychwantu'r pedwar piler ymarfer. Bydd y gweithgareddau hyn yn gofyn am wybodaeth neu sgiliau ar lefel arbenigol a byddant yn effeithio ar ofal cleifion a/neu iechyd y boblogaeth.

### **6.7 Cynllunio swyddi**

- Rhaid ymrwymo i gynllunio swyddi yn rheolaidd ar gyfer swyddi fferyllwyr ymgynghorol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canlyniad a ddymunir i gleifion a rhaid iddo hwyluso'r fferylllydd ymgynghorol i dreulio 80% o'i amser ar weithgareddau ymarfer arbenigol.

## Atodiad 1 Geirfa

Ymarfer Clinigol	Gweithgareddau a wneir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol gan ddefnyddio ei arbenigedd i gynorthwyo cleifion a'r boblogaeth i gyflawni a chynnal iechyd gwell
Y Claf	Unigolion sy'n cael mynediad at neu sy'n gofyn am wasanaethau gofal iechyd
Canolbwyntio ar y claf	Defnyddio ymarfer clinigol i gael effaith gadarnhaol ar gleifion neu'r boblogaeth ehangach
Deiliad swydd etifeddol	Fferyllydd a gyflogir mewn swydd fferyllydd ymgynghorol a gafodd ei gydnabod yn unol â chanllawiau 2005
Fferyllydd ymgynghorol	Fferyllydd wedi'i wirio ar lefel ymgynghorydd AC yn gweithio mewn swydd gymeradwy sy'n darparu gwasanaethau'r GIG
Ymarferydd lefel ymgynghorydd	Fferyllydd sydd wedi dangos cymhwysedd ymarfer arbenigol i gorff gwirio annibynnol, ac sydd wedi meithrin cysylltiadau gwaith ac arweinyddiaeth ar lefel meistrolaeth a'r tri chlwstwr Fframwaith Fferylliaeth Uwch gweddilliol ar gam uwch II o leiaf
Staff lefel uwch	Er enghraifft, arweinydd fferyllol neu ddirprwy arweinydd, ymarferydd meddygol ymgynghorol

## Atodiad 2 Canllawiau Cynllunio Swyddi

Mae cynllunio swyddi ar gyfer fferyllwyr ymgynghorol yn unol â chynllunio swyddi ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol<sup>89</sup>. Mae cynllunio swyddi yn galluogi rheolwyr ac ymgynghorwyr i gynllunio llwyth gwaith y swydd yn unol â gofynion y swydd.

Dylai'r cynllun swydd gynnwys pob agwedd ar y rôl, o dan benawdau'r pileri ymarfer, yn unol â gofynion y swydd fferyllydd ymgynghorol (enghreifftiau isod) gyda dyraniad bras cysylltiedig o amser (gall hyn fod fesul wythnos, mis neu gyfnod penodol arall o amser):

### 1. Ymarfer Clinigol

- 1.1. Gweithgareddau unigol penodol i gleifion (gofal clinigol uniongyrchol ac anuniongyrchol)
- 1.2. Gweithgareddau clinigol eraill (e.e. cynhyrchu canllawiau, datblygu llwybrau clinigol, darparu cyngor arbenigol)
- 1.3. Goruchwyliaeth glinigol

### 2. Ymchwil

- 2.1. Cynnal ymchwil neu wella ansawdd
- 2.2. Ysgrifennu papurau / posteri / cyflwyniadau gyda chanfyddiadau
- 2.3. Ceisiadau grantiau ymchwil

<sup>8</sup> NHS Employers and the BMA 2011 **A guide to consultant job planning**

<sup>9</sup> NHS Improvement 2017 **Allied health professionals job planning: a best practice guide**

2.4. Goruchwyllo ymchwil

### **3. Addysg**

- 3.1. Cyflwyno addysg (ffurfiol neu anffurfiol)
- 3.2. Datblygu deunyddiau / rhaglenni addysg

### **4. Arweinyddiaeth**

- 4.1. Datblygu gwasanaethau
- 4.2. Hwyluso gwaith trawsffiniol
- 4.3. Cyswllt â rhanddeiliaid

### **5. Arall**

- 5.1. Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- 5.2. Gweithgareddau rheoli
- 5.3. Darpariaeth gwasanaeth nad yw'n ymgynghorol

Mae gweithgareddau blynyddol hefyd yn cael eu coladu o dan bob un o'r penawdau hyn.

Os oes angen, gellir creu cynllun swydd wythnosol neu fisol o'r gweithgareddau a nodwyd, gan ddefnyddio'r templed isod. Gellir categoreiddio'r math o waith yn ôl y piler ymarfer. Mewn rhai achosion, mae'n ddefnyddiol gallu dosbarthu gwaith i fwy nag un piler.

## DYDDIADUR CYNLLUN SWYDD ENGHREIFFTIOL

Enw:.....

Prif Leoliad Gwaith: .....

Contract: Llawn Amser / Rhan Amser

Yn atebol o ran rheolwr i: .....

Yn gyfrifol am:.....

...

a) Amserlen gweithgareddau sydd â lleoliad ac amser penodol

Arbenigedd: .....

Gweithgareddau wedi'u Trefnu: ..... Cyfwerth ag amser llawn.....

DIWRNOD	Amser O / Hyd at	YSBYTY/LLEOLIAD	MATH O WAITH
<b>Dydd Llun</b>	08:00–09:00		
	09:00–10:00		
	10:00–11:00		
	11:00–12:00		
	12:00–13:00		
	13:00–14:00		
	14:00–15:00		
	15:00–16:00		
<b>Dydd Mawrth</b>	08:00–09:00		
	09:00–10:00		
	10:00–11:00		
	11:00–12:00		
	12:00–13:00		
	13:00–14:00		
	14:00–15:00		
	15:00–16:00		
<b>Dydd Mercher</b>	08:00–09:00		
	09:00–10:00		
	10:00–11:00		
	11:00–12:00		
	12:00–13:00		
	13:00–14:00		
	14:00–15:00		
	15:00–16:00		
<b>Dydd Iau</b>	08:00–09:00		


	09:00–10:00		
	10:00–11:00		
	11:00–12:00		
	12:00–13:00		
	13:00–14:00		
	14:00–15:00		
	15:00–16:00		
	16:00–17:00		
<b>Dydd Gwener</b>	08:00–09:00		
	09:00–10:00		
	10:00–11:00		
	11:00–12:00		
	12:00–13:00		
	13:00–14:00		
	14:00–15:00		
	15:00–16:00		
	16:00–17:00		
<b>Dydd Sadwrn</b>	09:00–17:00		
<b>Dydd Sul</b>	09:00–17:00		

**b) Gweithgareddau blynyddol nad ydynt yn cael eu cwblhau mewn lleoliadau neu amseroedd penodol**

**c) Gweithgareddau yn ystod Oriau Gwaith Cyfradd Premiwm e.e. oriau y tu allan i 8am–8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**



**d) Gweithgareddau ychwanegol wedi'u trefnu – gweler y contract a'r amserlen ar wahân**



## Atodiad 3 Modelau gweithredu ar gyfer swyddi fferyllwyr ymgynghorol newydd

Mae'n bwysig bod swyddi ymgynghorwyr newydd yn cael eu datblygu mewn modd strategol sy'n cynyddu gallu'r ymgynghorydd i weithio ar draws yr economi iechyd. Wrth ddatblygu swyddi, mae'n bwysig ystyried y gweithlu sydd ar gael a datblygu swyddi sy'n debygol iawn o gael eu penodi.

Mae gweithio gydag arweinyddiaeth iechyd leol i benderfynu ar flaenoriaethau yn agwedd sylfaenol ar hyn. Bydd defnyddio'r adnoddau sydd ar gael (ysbyty enghreifftiol NHSI a GIRFT, NHS RightCare, cynlluniau i drawsnewid ardal) i bennu amrywiad di-alw-amdano yn helpu i dargedu'r meysydd y mae angen sylw arnynt, lle gallai'r arweinyddiaeth glinigol a gynigir gan fferyllwyr ymgynghorol gael effaith sylweddol. Ochr yn ochr â hyn, gallai blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol fod yn sbardun sylweddol yn y penderfyniad i greu rolau ymgynghorwyr newydd.

Elfen sylfaenol arall o greu swyddi strategol yw cynllunio olyniaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y swyddi tra arbenigol, lle mae'n bosibl na fydd unrhyw ymgeiswyr sydd â'r wybodaeth glinigol ofynnol i lenwi unrhyw swyddi gwag sy'n codi.

### **Strategaethau ar gyfer datblygu gwahanol fathau o swyddi**

#### **1. Swyddi arbenigol iawn e.e. pwysedd gwaed uchel yn yr ysgyfaint, trawsblannu organau, Radiofferylliaeth**

Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer wedi'u lleoli mewn canolfan drydyddol mewn ysbyty athrofaol mawr. Er hyn, mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol eang a chanddi nifer uchel o ystyriaethau rhyngwynebol, felly mae'r gwaith y mae fferyllwyr ymgynghorol sy'n gweithio yn y maes hwn yn ei wneud yn debygol o groesi'r economi iechyd yn naturiol.

Oherwydd bod y gwasanaethau'n arbenigol iawn, a'u bod fel arfer wedi'u comisiynu yn genedlaethol a bod nifer yr unigolion mewn unrhyw ardal yn gymharol isel, mae'n llai tebygol y byddai sefydliadau eraill yn dymuno cyfrannu at ddatblygu swyddi

Ar gyfer y swyddi hyn, oherwydd lefel yr arbenigedd, byddai'n ddoeth ystyried yr unigolion sydd ar gael cyn creu'r swydd. Rhaid ystyried cynllunio olyniaeth a rhoi cynllun rhagweithiol ar waith, oherwydd heb hyn, mae'n annhebygol y byddai'r swydd yn cael ei llenwi pe bai'r swydd yn cael ei hysbysebu.

#### **2. Swyddi hynod arbenigol e.e. gwasanaethau canser, HIV, gofal critigol, maeth**

Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau hyn wedi'u lleoli mewn ysbytai addysgu mawr. Fel rheol, mae'r rheiny sydd â'r cyflwr wedi'u dosbarthu'n eang yn lleol neu'n rhanbarthol. Gall y gwaith groesi rhyngwynebau neu gall fod wedi'i lleoli'n bennaf yn y sector eilaidd. Yn aml, mae cysylltiadau cryf â darparwyr gofal eilaidd llai eraill (h.y. ysbytai cyffredinol dosbarth).

Mae'r gwasanaethau yn dra arbenigol ac mae ganddynt lefel uchel o gymhlethdod clinigol. Gall comisiynu ddiwydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol, neu gall fod yn gyfuniad ohonynt. Efallai y bydd sefydliadau eraill yn yr ardal yn elwa ar rôl yr ymgynghorydd ac efallai yr hoffent gyfrannu at ddatblygiad y rôl.

Mae lefel yr arbenigedd ar gyfer y rolau hyn yn uchel, ond mae nifer y fferyllwyr sy'n gweithio yn yr arbenigeddau yn uwch nag ar gyfer y rolau tra arbenigol. Yn yr achos hwn, byddai'n bosibl creu swydd yn absenoldeb ymgeisydd addas hysbys.

### **3. Swyddi arbenigol "cyffredinol" e.e. diogelwch meddyginiaeth, gofalu am bobl hŷn, optimeiddio meddyginiaethau**

Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws yr economi iechyd, mewn gofal sylfaenol, mewn ysbytai cyffredinol dosbarth ac mewn ysbytai addysgu mawr. Mae'r niferoedd yn fawr ac wedi'u gwasgaru ar draws yr economi iechyd. Bydd llwybr y claf yn croesi'r rhyngwyneb gofal sawl gwaith.

Mae lefel y cymhlethdod yn amrywio'n fawr ac mae sawl cyfle i ymgynghorwyr gael effaith ar y rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. At hynny, mae ganddynt y gallu i gynnal gweithgareddau effaith uchel a all effeithio ar nifer fawr o'r boblogaeth. Mae'n debygol iawn y bydd sefydliadau eraill yn elwa ar effaith fferylllydd ymgynghorol ac felly mae disgwyl cyfraniad gan yr ardal gyfan.

Yn gyffredinol, mae nifer fawr o fferyllwyr yn gweithio ar lefelau uwch o fewn yr arbenigeddau cyffredinol. Gellir creu'r swyddi hyn yn ymarferol heb ystyried yr ymgeiswyr sydd ar gael.